# NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA 2026

# 2026 PEACE AND GOODWILL MESSAGE

MINORITY LANGUAGES

IEITHOEDD LLEIAFRIFOL

19.05.2026

Urdd

## CYMRAEG

'Pam trafferthu',
'Waeth ti heb',
'Beth yw'r ots.'

Pam trafferthu?
Gan mai hon yw iaith pen draw'r cof,
iaith fy Mabinogi, iaith sy'n rhan ohonom ni,
iaith sy'n rhoi ystyr i bob darn o dir,
iaith sy'n orffennol, presennol a dyfodol.

Waeth mi heb?
Ond dyma iaith cymuned, iaith perthyn,
iaith balchder,
iaith crio chwerthin, iaith rantio,
iaith synnwyr a malu awyr,
iaith 'ti ddim ar ben dy hun'.

Beth yw'r ots?
Mae ots am iaith
sy'n lliwio ymennydd a llenwi enaid,
sy'n dychmygu'n ehangach, yn garedicach,
sy'n dymchwel waliau, sy'n fyd o
bosibiliadau.

Oes, mae ots am iaith
sy'n lond gwlad o obaith.

**MARGED TUDUR**

## SLOVENIAN

Zakaj se truditi?
Koga briga?
Kakšen je smisel?

Zakaj se truditi?
Ker je to jezik spomina,
jezik moje mladosti, vtkan v nas,
ki daje smisel zemlji pod našimi nogami.
Jezik, ki je preteklost, sedanjost in prihodnost.

Koga briga?
Nas.
Ker je to jezik skupnosti, pripadnosti, ponosa,
smeha, ki nas spravi v jok.
Jezik jeze in razuma ter čudovitega nesmisla,
jezik, ki pravi: »Nisi sam.«

Kakšen je smisel?
Smisel je jezik,
ki obarva um in razvnema dušo,
ki sanja daleč in široko – in vedno bolj prijazno.
Jezik, ki ruši ovire
in odpira svetove možnosti.

Da.
Smisel je v jeziku
z upanjem v srcu.

**CYFIEITHIAD GAN: MAJDA KRIŽMAN ŽUŽEK**



Remember to share the 2026 Peace and Goodwill Message on:

URDD GOBAITH CYMRU

URDDGOBAITHCYMRU

URDDGOBAITHCYMRU

urdd.cymru/ heddwch